Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

20 Mai 2022

Annwyl Mick,

Deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn newydd

Yn ein cyfarfod ar 16 Mai 2022, trafododd fy Mhwyllgor yr ohebiaeth dyddiedig 12 Mai a 13 Mai 2022 a'ch datganiad ysgrifenedig i'r Senedd ynghylch Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

Gwnaethom nodi'r wybodaeth a ddarparwyd gennych sy'n dweud bod Llywodraeth y DU wedi nodi yn flaenorol 12 maes polisi lle y gallai deddfwriaeth "sydd o berthnasedd arbennig i fuddiannau datganoledig" gael ei chynnwys yn ei rhaglen ddeddfwriaethol. Nodwyd gennym hefyd, yn fwy diweddar, y ffaith bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dweud bod 27 o'r 38 Bil y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cyflwyno yn Nhrydedd Sesiwn Senedd y DU yn debygol o fod yn gymwys i Gymru.

Yn fy llythyr atoch dyddiedig 12 Mai, gofynnais ichi gadarnhau ym mha Filiau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio, neu y gallai geisio, darpariaeth yn eu cylch ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig. Er nad oedd yn eich llythyr dyddiedig 13 Mai yn cynnwys manylion o'r fath, nodwn eich gobaith y bydd gennych ragor o wybodaeth am y Biliau y cyfeirir atynt yn eich datganiad ysgrifenedig cyn ein cyfarfod ar 20 Mehefin.

Byddwch yn gwerthfawrogi y bydd cael y wybodaeth hon mewn da bryd yn helpu i lywio gwaith y Senedd o ran ystyried unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol dilynol, a bydd hefyd yn helpu fy Mhwyllgor yn benodol i gynllunio ei raglen waith. Am y rhesymau hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gellid rhannu â'm Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd